



Sesiwn Briffio Saith Munud: Dyletswydd Trais Difrifol

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, e-bostiwch safercommunities@wlga.gov.uk

Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y Canllawiau Dyletswydd Trais Difrifol terfynol ym mis Rhagfyr 2022.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/112442/December_2022_Welsh_.pdf

[December 2022 Welsh .pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/112442/December_2022_Welsh_.pdf)

Cyllid am 3

blynedd

(22/23, 23/24,
24/25)

- Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, yn cynnwys cynllun cyflawni.
 - Rhaniad llafur/ymyriadau mewn cyllid wedi'i nodi yn y cais.

Diffiniad


- Mae pob ardal yn diffinio beth yw trais difrifol, wedi'i seilio ar dystiolaeth leol.
- Mae ardal leol partneriaeth yn o leiaf ardal llywodraeth leol ond gellir ei ddiffinio'n lleol fel ardal fwy e.e. ôl troed bwrdd iechyd.

Deddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022

- Cafodd y Ddyletswydd Trais Difrifol ei osod dan y gyfraith ym Mhennod 1 Rhan 2 o'r Ddeddf.
- Mae'n gofyn i awdurdodau penodol o fewn ardal llywodraeth leol i gydweithio a chynllunio i atal a lleihau trais difrifol, yn cynnwys cam-drin domestig.
 - Ysgrifennwyd y canllawiau gyda mewnbwn gan Gymru, ac mae'n defnyddio strwythurau presennol (gweler tudalennau 20-38 yn y canllawiau am wybodaeth yn benodol am Gymru).
 - Ymgorffori dull iechyd cyhoeddus o atal trais.
 - Dechrau ar 31 Ionawr 2023.

Amserlen

- Cytuno ar bartneriaethau i'w ddarparu (31/3/2023).
- Asesiad Anghenion Strategol (31/1/2024).
- Cyhoeddi'r Strategaeth Trais Difrifol (31/1/2024).
- Adolygiad cyntaf o'r Strategaeth Trais Difrifol (31/1/2025) ac wedyn bob blwyddyn.



Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

- Mae gan PDC rôl amlwg mewn camau gweithredu strategol yn seiliedig ar dystiolaeth yn ymwneud â thrais difrifol.
 - Adolygu, gweithredu'r strategaeth a newidiadau yn yr asesiad anghenion o leiaf unwaith bob blwyddyn.
 - Ystyried effaith trais difrifol ar ddioddefwyr a chymunedau.
 - Cynnwys meysydd newydd o drais a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yn yr adolygiad.

Elfennau craidd y Ddyletswydd

- Asesiad Anghenion Strategol Trais Difrifol, deall materion lleol.
- Atal a lleihau trais difrifol, trwy baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth trais difrifol aml asiantaeth.

Awdurdodau penodol yn y Ddeddf

- Yr Heddlu (Prif Swyddogion)
- Gwasanaethau Prawf
- Timau Troseddau Ieuenctid
 - Tân ac Achub
 - Byrddau Iechyd
 - Awdurdodau Lleol
 - Awdurdodau eraill a nodir yn y canllawiau